



Anifeiliaid mewn syrcas – brîff

gan **RSPCA Cymru**

Prif ystyriaethau:

- Mae'r RSPCA eisiau gweld diwedd llwyr ar ddefnyddio anifeiliaid heb eu dofi (gwyllt) mewn syrcasau yng Nghymru.
- Mae ymchwil gwyddonol wedi dangos y gall bywyd syrcas gael effaith niweidiol ar les llawer o rywogaethau, a'r anifeiliaid gwyllt a ddefnyddir mwyaf cyffredin yw'r rhai lleiaf addas i fodolaeth o'r math hwn.¹
- Ymhellach, mae llawer o anifeiliaid syrcas yn treulio dim ond 1% i 9% o'u hamser yn hyfforddi ac yn perfformio (ar gyfartaledd), ac mae gweddill eu hamser wedi'i dreulio mewn cawell, wagen neu mewn llociau sydd fel arfer yn fach ac yn annigonol.
- Caiff anifeiliaid syrcas eu cadw am y rhan fwyaf o'r amser mewn caethiwed, yn aml mewn grwpiau cymdeithasol annormal, gan gael eu gorfodi i symud, cael eu trin gan bobl, a dioddef sŵn.
- Gellir gwahardd gweithgareddau ac arferion o dan bwerau gwneud rheolau adran 12 Deddf Lles Anifeiliaid 2006.
- Byddai'r RSPCA yn cefnogi cyflwyno gwaharddiad ar anifeiliaid gwyllt yn raddol gan y byddai hyn yn rhoi fframwaith i'r diwydiant, yn gwella lles anifeiliaid, ac yn sicrhau nad yw Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill o ran safonau lles anifeiliaid.

Amcangyfrifir fod 150 i 200 o anifeiliaid yn perfformio ar hyn o bryd mewn syrcasau yn y Deyrnas Unedig, gydag oddeutu 38 o'r anifeiliaid hyn yn rhai gwyllt sy'n cynnwys llewod, teigrod, eliffant, nadroedd a sebras. Mae sawl pŵl opiniwn gan yr RSPCA a mudiadau eraill lles anifeiliaid wedi dangos yn gyson bod y rhan fwyaf o'r cyhoedd yn cefnogi gwahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.² At hynny, mae 76% o'r cyhoedd yng Nghymru yn cefnogi gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru.³

Y sefyllfa gyfreithiol

Mae barn gyfreithiol yr aeth yr RSPCA (a grwpiau lles eraill) ar eu gofyn yn dangos y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau o dan a12 Deddf Lles Anifeiliaid 2006. Gall y llywodraeth ystyried anghenion yr anifeiliaid fel man cychwyn, ond gall hefyd ystyried ystyriaethau eraill megis barn y cyhoedd a barn y llywodraeth ar ddefnyddioldeb cymdeithasol yr arfer.

Cadarnhawyd y farn hon gan Adolygiad Barnwrol diweddar ar reoliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wahardd defnyddio coleri sioc electronig.⁴ Credai'r Anrhydeddus Mr Justice Beatson fod gan Lywodraeth y Cynulliad yr hawl i wahardd defnyddio coleri sioc electronig ar gathod a chŵn drwy ddefnyddio a12 y Ddeddf Lles Anifeiliaid. Yn ei dyb ef roedd y rheoliadau o fewn pwerau'r Ddeddf alluogi a bod unrhyw effaith ar fasnach a hawliau dynol wedi'i gyfiawnhau gan fod y rheoliadau yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur. Roedd hi'n berthnasol *nad* oedd defnyddio coleri o'r fath yn cael "*ei ganiatáu... mewn tair Aelod-wladwriaeth arall...*", sef sefyllfa debyg i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcas, sydd eisoes wedi'i wahardd gan nifer o wledydd, gan gynnwys rhai yn Ewrop.

Noda Mr Justice Beatson hefyd fod penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad wedi'i gefnogi gan "...y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori gan gynnwys nifer o sefydliadau lles anifeiliaid uchel eu parch..." Unwaith eto mae

¹ Harris S., Iossa G., & Soulsbury C. 2009 *A review of wild animals in circuses*. Animal Welfare 18: 129-140

² Pŵl MORI 1999; pŵl MORI 2005 wedi'i gynnal ar ran Animal Defenders International; pŵl MORI Ipsos 2006 arolwg Omnibws Lloegr a gynhaliwyd ar ran yr RSPCA; pŵl MORI Ipsos 2006 arolwg Omnibws Cymru a gynhaliwyd ar ran yr RSPCA; pŵl ICM Research 2006 a baratowyd ar ran Born Free Foundation gan ICM Research.

³ Ymchwil MORI Ipsos ar ran yr RSPCA, Medi 2006.

⁴ R(ar gais Petsafe Ltd a Chymdeithas Gwneuthurwyr Coleri Electronig) v Gweinidogion Cymru [2010] Uchel Lys Cymru a Lloegr 2908 (Gweinyddol).

hyn yn debyg i'r sefyllfa o ran anifeiliaid gwyllt mewn syrcas, gyda 94% o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad San Steffan yn ei gwneud yn glir mai eu barn yw y dylid gwahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt yn Lloegr.

Yn olaf, mae'r Barnwr yn nodi bod "...tramgwyddau troseddol o dan adran 4 a darpariaethau eraill [y Ddeddf Lles Anifeiliaid] yn mynd i'r afael â'r sefyllfa ar ôl y digwyddiad. Mae pwerau gwneud rheolau yn galluogi llunio rheoliadau sy'n ceisio hyrwyddo lles anifeiliaid yn gyffredinol cyn i unrhyw niwed gael ei achosi iddynt hwy yn hytrach na chosbi'r rheiny sydd wedi niweidio anifeiliaid unigol." Mae hwn yn bwynt pwysig i'w nodi ac yn mynd at wraidd y Ddeddf a sut y mae'n ddarn blaengar o ddeddfwriaeth nad yw'n syml am ymateb i greulondeb i anifeiliaid, ond ei bod am gymryd camau cadarnhaol i wella eu bywydau a'u lles ac felly atal unrhyw niwed rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae'n bosibl fod barn ac ymchwil gwyddonol yn berthnasol i'r ddeddfwriaeth ar faterion polisi cymdeithasol. Fodd bynnag, gallai'r llywodraeth lunio rheoliadau yn llwyr o dan a12 ar sail barn foesol ynghylch y ffordd y dylid neu na ddylid trin rhywogaeth, cyn belled â bod sail gredadwy, a bod y mesurau arfaethedig yn gwella lles y rhywogaeth dan sylw.

Pam na fyddai rheoliad yn golygu diwedd ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcas

Er bod nifer yr anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau wedi gostwng dros y blynyddoedd, prin yw'r dystiolaeth o weithredu gwirfoddol gan y diwydiant syrcas i'w atal yn gyfan gwbl. Yn wir, yn 2009 pan ddywedodd llywodraeth y Deyrnas Unedig bryd hynny y byddant efallai yn edrych ar y rheoliadau ar gyfer Lloegr, mewnforiodd y diwydiant syrcas dri eliffant arall o'r cyfandir. Mae hyn yn dangos yr angen am ddeddfwriaeth sy'n nodi'n glir amserlen ar gyfer rhoi'r gorau'n raddol i'r defnydd o anifeiliaid gwyllt, a byddai hefyd yn rhoi arweiniad clir i'r diwydiant syrcas.

Ni fyddai'r diwydiant yn cael ei niweidio gan waharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcas

Nid yw'r RSPCA yn credu y byddai gwaharddiad yn niweidiol i hyfywedd ariannol y diwydiant syrcas. Ar ben hynny, mae'r RSPCA yn gwadu honiadau y byddai gwaharddiad yn cael effaith negyddol ar y diwydiant clyweled. Caiff anifeiliaid gwyllt eu defnyddio weithiau mewn ffilm a theledu, ond mae yna lawer o gyflenwyr anifeiliaid eraill, gan gynnwys sŵau, a fyddai'n gallu cyflenwi i'r diwydiant clyweledol petai syrcasau yn rhoi'r gorau i gadw anifeiliaid gwyllt.

Nid yw hunanreoleiddio yn ddewis ymarferol

Cred yr RSPCA na fyddai gofyn i'r diwydiant syrcas reoleiddio ei hun yn sicrhau gwell lles i anifeiliaid. At hynny, gwrthododd y diwydiant syrcas ei hun hunanreoleiddio fel opsiwn ymarferol yn ystod ymgynghoriad diweddar San Steffan.⁵ Ni fyddai hunanreoleiddio yn ymdrin â phryderon bod cael eu cludo a'u caethiwo yn gyson yn effeithio ar les anifeiliaid gan fod hyn yn rhan annatod o fywyd syrcas. Mae safonau presennol y diwydiant (e.e. safonau Cymdeithas Perchnogion Syrcas) wedi methu â mynd i'r afael â phryderon ynghylch lles anifeiliaid ac ni fyddai hunanreoleiddio yn sicrhau annibyniaeth, tryloywder nac atebolrwydd.⁶

Y ffordd ymlaen

Mae nifer o wledydd eraill wedi gwahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau, gan gynnwys: Awstria, Bolifia, Costa Rica, Israel a Singapore. Mae gwaharddiad Awstria wedi cael ei brofi yn erbyn rhwymedigaethau Cytundeb a gwelwyd eu bod yn cydymffurfio â hwy. O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i wahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcas.

Byddai'r RSPCA yn cefnogi mynd ati'n raddol i gyflwyno gwaharddiad ar anifeiliaid gwyllt mewn syrcas gan y byddai hyn yn rhoi fframwaith i'r diwydiant, yn gwella lles anifeiliaid, ac yn sicrhau nad yw Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill o ran safonau lles anifeiliaid. Credwn fod methiant Llywodraeth y Cynulliad i wneud hynny yn tansilio amcanion blaengar Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

⁵ t.8 <http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/circus-wild-animals/responses.pdf>

⁶ Radford, M. 2007. *Wild Animals in Travelling Circuses: The report of the Chairman of the Circus Working Group*. Hydref 2007.